

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 9fed Hydref 2017

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 9th October 2017

Yn Bresennol/Present:

Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Keith Evans, Andrew Howell, Aled Jones, Gethin Jones, Llyr Jones, Susan Lloyd, Abby Reid

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Eileen Curry, Douglas Davies, Beth Davies a Chynghorydd Sir, Peter Davies /Apologies for absence was received from Cllrs Eileen Curry, Douglas Davies, Beth Davies and County Councillor Peter Davies.
2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Dim/None
3. **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017 yn gywir ar ôl newid enw'r ardal y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithredu ynddi o ardal Dyfed i Dyfed Powys / Minutes of monthly meeting held on 11th September 2017 was accepted as correct following changing the name of the area of the Police and Crime Commissioner from Dyfed only to Dyfed Powys.

4 Materion yn Codi:-

Lôn Letty

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Andrew Howell ei fod wedi gofyn i Farmyard Nurseries i gael gwared ar y 2 lwyn mawr yn y ddysgl blannu.

Grant Thornton

Gofynnodd y clerc i'r Cyngor am ganiatâd i gynnwys cyfrifon y Cyngor Cymuned ar Wefan Cyngor Cymuned Llandysul. Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i Lesley Parker am gymorth er mwyn cyflawni'r dasg hon, ond y dylid ei gymeradwyo yn ystod y cyfarfod nesaf cyn eu rhoi ar y Wefan.

Materion y mae angen Gwneud Penderfyniad Amdanynt

4) Ceisiadau Ariannol:-

Gŵyl yr Afon Canolfan Geufad Llandysul

Yn ystod y cyfarfod diwethaf, gohiriwyd y penderfyniad i dalu rhodd yn dilyn cais a gafwyd er mwyn ceisio gwybodaeth bellach. Cafwyd dogfennaeth ariannol bellach a phenderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano gan bod y Cyngorwyr yn teimlo bod digwyddiad o'r fath yn cynnig budd economaidd sylweddol i'r ardal leol.

Tân Gwylt Llandysul Gofynnwyd am £500 er mwyn helpu i dalu'r gost o drefnu'r noson tân gwylt yn Llandysul gan Grŵp Sgowtiaid Llandysul. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

Tân Gwylt Pont-siân

Gofynnwyd am £400 gan Glwb Ffermwyr Ifanc Pont-siân er mwyn cynorthwyo i drefnu'r noson tân gwylt ym Mhont-siân. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

5) Materion i'w trafod

Sedd Wag Llandysul

Nid oes unrhyw un wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag hyd yn hyn. Anogwyd yr aelodau i chwilio am ymgeiswyr addas, gan ddilyn y gweithdrefnau arferol er mwyn llenwi'r sedd wag.

Gwobr y Gymuned

4 Matters Arising:-

Lon Letty

Cllr Andrew Howell informed the meeting that he had had requested Farmyard Nurseries to remove the 2 large shrubs in the planter.

Grant Thornton

The clerk asked the Council for permission to insert the accounts of the Community Council on Llandysul Community Council's Website. It was decided that the clerk liaise with Lesley Parker for support to undertake this task, but to bring it back to the next meeting for ratification before going live on the Website.

Matters Requiring Decisions

4) Funding Applications:-

Llandysul Canoe Centre River Festival

A request for the payment of a donation was deferred at the last meeting in order to seek further information. Further financial documentation was received and it was resolved to donate the requested amount as the Councillors felt that such an event brought with it significant economic benefit to the locality. **Llandysul Fireworks** £500 was requested to help with the cost of arranging the fireworks evening at Llandysul from the Llandysul Scout Group. It was decided to donate the requested amount.

Pontsian Fireworks

£400 was requested from Pontsian Young Farmers Club to assist with arranging the fireworks evening in Pontsian. It was decided to donate the amount requested.

5) Matters for discussion

Llandysul Vacancy

No interest has been shown to date in the vacancy. Members were encouraged to seek out suitable candidates and to follow the usual procedures for the filling of the vacancy.

Community Award

Mr Ivor Thomas had been nominated by Cllrs

Enwebwyd Mr Ivor Thomas gan Gynghorwyr Tom Cowcher a Douglas Davies am ei holl waith gwirfoddol yng Nghapel Dewi. Penderfynwyd y dylai'r clerc hysbysu Mr Thomas o'r ffaith y bydd yn cael y wob, a'i wahodd i'n Cinio Nadolig Blynnyddol.

Cinio Nadolig

Cynhelir cinio blynnyddol y Cyngor Cymuned yn Nhafarn Gwarcefel, Pren-gwyn ar 25 Tachwedd. Dosbarthwyd bwydlen i'r aelodau a gofynnwyd iddynt ddychwelyd y ffurflen gan nodi eu dewisiadau i'r clerc erbyn y cyfarfod nesaf.

Cynllunio

Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu ag Adran Gynllunio y Sir er mwyn ceisio sicrhau datrysiad gwell i'r broses o roi adborth y Cyngor Cymuned am y ceisiadau cynllunio. Bydd y clerc yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

Materion Wardiau

Pont-siân Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr llwybr troed cyhoeddus rhwng Allt Ddu a Meini Gwynion Bach. Penderfynwyd y bydd Cyng Tom Cowcher yn cysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn holi pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r llwybr a gofalu amdano.

Maesymeillion a Phren-gwyn

Roedd Sioe Pren-gwyn wedi rhoi diffibriliwr i bentref Pren-gwyn ac roedd angen caniatâd i'w leoli yng nghiosg y Cyngor Cymuned. Rhoddwyd caniatâd. Yn ogystal, gwnaethpwyd penderfyniad mewn egwyddor i roi £300 i bob ward yn ardal y Cyngor yr oedd gofyn iddynt gael diffibriliwr. Byddai pob cais o'r fath yn cael ei ystyried ar ôl ei gyflwyno. Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Aled Jones bod rhai grantiau ar gael i Gymunedau er mwyn iddynt sicrhau diffibrilwyr, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i'r clerc er mwyn ei dosbarthu.

Llandysul Esboniodd Cyng Keith Evans nad oedd rhai o'r goleuadau yn y Maes Parcio yn

Tom Cowcher and Douglas Davies for all his volunteering work in Capel Dewi. It was decided that the clerk inform Mr Thomas of the award and invite him to our Annual Christmas Dinner.

Christmas Dinner

The annual Community Councils dinner would be held at Gwarcefel Arms, Prengwyn on the 25th of November. A menu was distributed to members and all were requested to return to the form with choices to clerk by the next meeting.

Planning

It was decided that the clerk liaise with the County's Planning Department in order to seek a better solution of giving the Community Councils' feedback on the planning applications. The clerk to report back at the next meeting.

Ward Matters

Pontsian Concern was expressed with regards to the state and maintenance of a public footpath between Allt Ddu and Meini Gwynion Bach. It was decided that Cllr Tom Cowcher contact the County Council to see who's responsible for the upkeep and maintenance of the path.

Maesymeillion and Prengwyn

Prengwyn village had been donated a defibrillator from Prengwyn Show and needed permission to site it in the Community Councils kiosk. Permission was granted. It was also decided to donate, in principal £300 to all wards within the Council who had a requirement for a defibrillator. All such requests would be considered as they are presented. Cllr Aled Jones informed the meeting that there were some grants available for Communities to obtain defibrillators, this information to be passed to the clerk for circulation.

Llandysul Cllr Keith Evans explained that some of the lights in the Carpark did not work.

gweithio. Bydd y clerwr yn adrodd am hyn i'r Cyngor Sir.

Mae'r Gymdeithas Chwaraeon yn paratoui cais am grant i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd er mwyn adnewyddu'r gegin. Penderfynwyd y dylai'r clerwr ddarparu llythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned.

Atgoffwyd yr aelodau gan Gyngwr Keith Evans o'r ffaith y cynhelir yr Ŵyl Gerdd Dant yn yr Ardal ar 11 Tachwedd, yn Ysgol Bro Teifi. Penderfynwyd y byddai bwrdd hysbysebu y Cyngor Cymuned yn cael ei arddangos yn yr ysgol, ond penderfynwyd peidio comisiynu baner ar gyfer y Cyngor Cymuned.

Roedd Warden yr Eglwys wedi hysbysu'r Cyngor o'r ffaith bod coeden yn y fynwent yn beryglus iawn a bod hyn wedi cael ei adrodd i Geredigion.

Esboniodd Cyngwr Abbey Reid y byddai Cyngor Sir Gâr yn newid i system y Credyd Cynhwysol ym mis Mawrth, cyn y byddai Ceredigion yn newid. Ar hyn o bryd, gall pobl deithio i'r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghaerfyrddin i gofrestru'n ddi-waith, ond byddai'r newid ym mis Mawrth yn golygu y byddai'n rhaid i breswylwyr sy'n byw yng Ngheredigion deithio i Aberteifi neu Aberystwyth yn lle hynny. Penderfynwyd y dylai'r clerwr ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn esbonio y byddai teithio yn peri problem i'r preswylwyr gan nad oes modd iddynt fanteisio ar y rhwydwaith trafndiaeth yn hawdd, ac o ystyried y cysylltiadau agos rhwng y ddwy sir, gofynnir a fyddai modd trefnu rhywbeth yn lleol. Byddai DWP yn cael gwybod na fyddai modd i rai preswylwyr deithio er mwyn mynychu apwyntiadau ar adegau penodol yn ystod y dydd gan nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael. Yn ogystal, penderfynwyd cysylltu ag Uned Trafndiaeth Cyngor Sir Ceredigion er mwyn amlygu'r problemau hyn.

Esboniodd Cyngwr Keith Evans ei bod yn wythnos y Llyfrgelloedd a bod ymdrech yn cael ei gwneud ar draws y Sir i gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn. Penderfynwyd y dylai'r clerwr ysgrifennu at Ysgol Bro Teifi yn

The clerk to report it to the County Council.

The Sports Society is in the process of making a grant application to the County Council for kitchen refurbishments. It was decided that the clerk provide a letter of support from the Community Council.

Cllr Keith Evans reminded members that the Gwyl Cerdd Dant was coming to the Area at Bro Teifi School on the 11th November. It was decided that the Community Councils pop-up would be displayed at the school but it was decided not to commission a Community Council flag.

The Church Warden had informed the Council that a tree in the church yard was very dangerous and had been reported to Ceredigion.

Cllr Abbey Reid explained that Carmarthenshire County Council would be changing to the Universal Credit system in March before Ceredigion would. Currently people can travel to the Job Centre Plus in Carmarthen to sign on, but the change in March would mean that the residents living in Ceredigion would have to travel to Cardigan or Aberystwyth instead.

It was decided that the clerk write to the Department of Work and Pensions explaining that travelling would become an issue for the residents as the transport network is not readily available for the residents and given how intertwined the two counties are, asking if something could be arranged locally. It would be highlighted to the DWP that some residents would not be able to travel to certain appointment times during the day as public transport is simply not provided. It was also decided to contact Ceredigion County Councils Transport Unit to underline these problems.

Cllr Keith Evans explained that it was Library week and that a County wide effort was being undertaken to increase patronage. It was decided that the clerk write to Bro Teifi School asking for pupils to become members of the

gofyn i'r disgyblion ymaelodi â'r llyfrgell yn Llandysul er mwyn rhoi hwb i'w haelodaeth.

6) **Cydnabod derbyn rhoddion**

Sioe Llandysul - £500

Penwythnos Cerdded - £500

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerch ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 11 Medi ac 8 Hydref 2017.

Nododd yr aelodau bod angen i'r Cyngor ymateb i rai o'r eitemau gohebiaeth. Gofynnwyd i'r clerch ystyried y cais ac i osod eitemau o'r fath ar agenda'r Cyngor. Cafwyd y canlynol gan **ULIC/SLCC/Clerks and Councils Direct** – Cafwyd hysbysiad o'r ffaith y cynhelir Cyfarfod Ardal Ceredigion ar 18 Hydref 2017. Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

Western Power Cafwyd llythyr ynghylch y Cysylltiad Heb ei Fesur Dros Dro ar gyfer Goleuadau nadolig 2017/18. Penderfynwyd y bydd y goleuadau yn Llandysul yn cael eu troi ymlaen cyn y Ffair Nadolig ar 2 Rhagfyr.

Llywodraeth Cymru – Cafwyd llythyr ynghylch cyllid ar gyfer clystyru a chyllid er mwyn cynorthwyo'r gwaith cychwynnol o wneud trefniadau ar y cyd. Penderfynwyd nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud hyn ar hyn o bryd.

Sul y Cofio

Cafwyd llythyr gan y Parchedig Gareth Reid yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned i wneud darlleniad yn ystod y gwasanaeth cofio ac i osod torch. Cadarnhaodd Cadeirydd y Cyngor, Andrew Howell, y byddai'n cyflawni'r ddwy dasg. Yn ogystal, penderfynwyd rhoi £80 i Apêl y Pabi.

Cadarnhaodd Cynghorydd Sir Keith Evans y byddai ef yn gosod torch hefyd ac yn cymryd rhan yn yr orymdaith.

Nat West– Cafwyd hysbysiad am ffioedd gorddrafft heb eu trefnu.

7 **Cynllunio:**

library at Llandysul in order to boost its membership.

6) **Acknowledge receipt of donation**

Llandysul Show - £500

Walking Weekend - £500

Correspondence

Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 11th September– 8th October 2017 was tabled. Members commented that some of correspondence required a response from the Council. Clerk was asked to scrutinize the request and to place such items on the Councils' agenda.

The following were received from **OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** – Notice of Ceredigion Area Meeting to be held on 18th October 2017 was received.

The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct was received.

Western Power Letter was received regarding Temporary Unmetered Connection for festive Lighting 2017/18. It was decided that the lights in Llandysul be switched on prior to the Christmas Fair on the 2 December.

Welsh Government – Letter was received with regards of funding for clustering and funding to support of initial setting up of joint arrangements. It was decided that the Council was not currently in a position to do this.

Remembrance Sunday

Letter was received from Rev Gareth Reid asking for representation from the Community Council to give a reading at the remembrance service and to lay a wreath. Chairman of Council Andrew Howell confirmed that he would undertake both requested tasks. It was also decided to donate £80 towards the Poppy Appeal.

County Councillor Keith Evans confirmed that he would also be laying a wreath and taking part in the procession.

Nat West– Notice of unarranged overdraft fees was received.

7 **Planning:**

Cafwyd Hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 11.10.17.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A170879 - Tir wrth ymyl Bythynnod Blaenffos Pren-gwyn – Adeiladu annedd.

8) Gwybodaeth Ariannol

Anfonebau:-

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £150.20 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Medi a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Gwasanaethau Garddio PJ – Cafwyd anfoneb am y swm o £300, £100 am dorri'r porfa gyferbyn â Neuadd Tysul a £200 er mwyn cynnal a chadw'r llwybr troed o'r lloches bws uwchlaw safle Dyffryn Teifi i lawr i'r afon ddwy waith y flwyddyn.

Cliand Computers – Anfoneb am y swm o £36 am raglen Norton Security ar gyfrifiadur y clerch.

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 11.10.17 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A170879 - Land adjacent to Blaenffos Cottages Prengwyn – Erection of dwelling.

8) Financial Information

Invoices:-

Llinos Jones – Invoice September translation for £150.20 was received and passed for payment.

PJ Gardening Services – Invoice for £300, £100 for cutting of grass opposite Tysul Hall and £200 to maintain footpath from bus shelter above Dyffryn Teifi down to river twice per year.

Cliand Computers – Invoice for £36 for Norton Security on clerks computer.

